

PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU, 6 GORFFENAF 2022

Yn bresennol:

Y Cynghorwyr: Annwen Hughes, Beca Roberts, Delyth Lloyd Griffiths, Edgar Owen, Elfed Powell Roberts, Elin Hywel, Elwyn Edwards, Gruffydd Williams, Gwilym Jones, Kim Jones, Linda Morgan, Llio Elenid Owen, Rob Triggs, Robert Glyn Daniels, Rhys Tudur, Stephen Churchman.

Swyddogion: Llywela Owain (Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu), Bethan Adams (Ymgynghorydd Craffu), Rhodri Marc Jones (Swyddog Gwasanaeth Democratiaeth), Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth) ac Einir Rhian Davies (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

Yn bresennol ar gyfer eitem 8:

Dafydd Wyn Williams (Pennaeth Adran Amgylchedd) a Bethan Richardson (Rheolwr Rhaglen Newid Hinsawdd).

1. ETHOL CADEIRYDD

PENDERFYNWYD ethol y Cyngorydd Elin Hywel yn Gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn 2022/23.

2. ETHOL IS-GADEIRYDD

Cynigwyd ac eiliwyd dau enw ar gyfer y rôl, sef y Cyngorydd Kim Jones a'r Cyngorydd Glyn Daniels.

PENDERFYNWYD ethol y Cyngorydd Kim Jones yn Is-Gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn 2022/23.

3. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cyngorydd Arwyn Herald Roberts a'r Cyngorydd Dyfrig Siencyn (Arweinydd y Cyngor).

4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

5. MATERION BRYD

Datganwyd pryder am gydbwysedd gwleidyddol aelodaeth y pwyllgor ac y gallai gwaith y Pwyllgor fod yn ymarferiad sêl bendith.

Sicrhaodd y Cadeirydd y byddai'r pwyllgor yn ymgymryd â'i rôl o graffu gwaith y Cyngor a'r Cabinet.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod, nododd yr Ymgynghorydd Craffu nad oedd rheol benodol o ran dynodi'r is-gadeiryddiaeth i grŵp gwleidyddol. Cadarnhaodd mai'r gadeiryddiaeth oedd yn cael ei ddynodi i grŵp gwleidyddol ac y cynhelir adolygiad blynyddol o ddyraniad cadeiryddiaethau craffu.

6. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 10 Mawrth 2022 fel rhai cywir.

7. MONITRO PERFFORMIAD

Gwahoddwyd enwebiadau ar gyfer mynychu cyfarfodydd herio perfformiad. Eglurwyd bod tri maes gwaith penodol i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau - Amgylchedd, Priffyrdd a Bwrdeistrefol ac Ymgynghoriaeth Gwynedd. Tynnwyd sylw at 'Ganllaw Herio Perfformiad i Aelodau Craffu' a oedd wedi ei gynnwys yn y rhaglen.

PENDERFYNWYD:

- Ethol y Cynghorwyr Rhys Tudur ac Linda Morgan i fynychu cyfarfodydd herio perfformiad maes gwaith Amgylchedd.
- Ethol y Cynghorwyr Stephen Churchman ac Arwyn Herald Roberts i fynychu cyfarfodydd herio perfformiad maes gwaith Priffyrdd a Bwrdeistrefol.
- Ethol y Cynghorwyr Rob Triggs a Llio Elenid Owen i fynychu cyfarfodydd herio perfformiad maes gwaith Ymgynghoriaeth Gwynedd.

8. BWRDD HINSAWDD A NATUR

Gosodwyd cefndir a chyd-destun i'r adroddiad gan y Pennaeth Amgylchedd. Eglurodd bod Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur wedi ei fabwysiadu gan y Cabinet ar 8 Mawrth 2022. Manylodd ar aelodaeth y Bwrdd Hinsawdd a Natur a oedd yn cynnwys Aelodau Cabinet a Phenaethiaid Adran yn y prif feysydd perthnasol. Gofynnwyd i'r Pwyllgor ethol cynrychiolydd ar gyfer y Bwrdd Hinsawdd a Natur.

PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Beca Roberts i gynrychioli'r Pwyllgor ar y Bwrdd Hinsawdd a Natur.

Dechreuodd y Cyfarfod am 10:00yb a gorffennodd am 10:30yb.

CADEIRYDD